O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 673 (Cy. 79)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefncoedycymer, Merthyr Tudful i Gylchfan Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2013

Gwnaed	*26 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*5 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefncoedycymer, Merthyr Tudful i Gylchfan Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2013.

2. — Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5

Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465 rhwng Cefncoedycymer ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chylchfan Hirwaun ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwahardd a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Atal

5. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2013**(3)** drwy hyn wedi eu hatal mewn cysylltiad â'r darn o briffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad neu'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 26 Chwefror 2013

R Morgan

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 2013/405 (Cy.49)

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cefncoedycymer hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Hirwaun.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Hirwaun hyd at ganolbwynt Cyffordd Baverstocks.